Llywodraeth Cymru
Welsh Government

VFCC
VOICES FROM CARE CYMRU

# Uwchgynhadledd Diwygio Radical

## DATGANIAD

Tachwedd 2025

llyw.cymru

Yn y blynyddoedd ers datganoli, mae un Llywodraeth Cymru ar ôl y llall wedi rhoi blaenoriaeth i hawliau ac anghenion plant a phobl ifanc ac fe gafwyd llwyddiannau o bwys. Yn 2001, mewn ymateb i Adroddiad Waterhouse, sefydlwyd swyddfa'r Comisiynydd Plant; y cyntaf yn y Deyrnas Unedig. Yn 2011, pasiwyd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), a oedd yn ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn rhannol yng nghyfraith Cymru. Yn 2020, pasiwyd Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru), gan roi i blant yr un amddiffyniad rhag trais o dan gyfraith ein gwlad.

Fel cenedl, gall Cymru ymfalchïo yn y llwyddiannau hyn ac eraill, ond mae llawer mwy i'w wneud o hyd, er mwyn i'n cymuned ofal allu ymgyrraedd at ei llawn botensial, a'i gyflawni.

Yn 2021, roedd addewid yn y Rhaglen Lywodraethu y byddai Gweinidogion Cymru yn ymchwilio i ddiwygio gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal a'u teuluoedd mewn ffordd radical. Penderfynodd y Gweinidogion mai drwy glywed llais y gymuned sydd â phrofiad o fod mewn gofal y dylid mynd ati i ddechrau ymchwilio i hyn.

Ym mis Rhagfyr 2022, cyfarfu'r Gweinidogion â'r Llysgenhadon Ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn yr Uwchgynhadledd Diwygio Radical gyntaf, a chytuno ar y Datganiad Diwygio Radical gwreiddiol. Datganiad yw hwn sy'n amlinellu'r Weledigaeth ar gyfer yr union fath o wasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn y dyfodol ac ar gyfer profiad y defnyddiwr o'r gwasanaethau hynny.

Ers hynny, mae Gweinidogion Cymru a'r Llysgenhadon Ifanc wedi cyfarfod ar sawl achlysur, gan gadw lleisiau plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn ganolog i'r broses diwygio radical. Cytunodd y Gweinidogion a'r Llysgenhadon Ifanc ar y fersiwn wedi'i diweddaru o'r Weledigaeth yn y Datganiad newydd hwn yn yr Uwchgynhadledd ym mis Mai 2025. Ar ôl trafodaeth bellach, fe'i llofnodwyd gan y Prif Weinidog ym mis Tachwedd 2025.

Mae proses yr Uwchgynhadledd wedi trafod y camau sy'n angenrheidiol i hyrwyddo hawliau – ar sail Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn – a llesiant plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.



# Datganiadau Cefndir

## Llywodraeth Cymru

Yn ein Cynllun Plant a Phobl Ifanc, mae Llywodraeth Cymru yn nodi ein huchelgais:

'Rydym am i Gymru fod yn lle gwych i blant a phobl ifanc dyfu i fyny, byw a gweithio ynddo, nawr ac yn y dyfodol.'

Aiff y Cynllun yn ei flaen i ddweud: 'Credwn fod gan bob un o'n plant a'n pobl ifanc yr hawl i wneud y canlynol:

- Cael y dechrau gorau mewn bywyd.
- Cymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu a'u mwynhau, a chael yr addysg orau bosibl i feithrin eu gwybodaeth a'u creadigrwydd a'u galluogi i wireddu eu potensial.
- Mwynhau ffyrdd iach o fyw a chael eu diogelu rhag niwed, camdriniaeth, esgeulustod a gwahaniaethu.
- Gallu chwarae a chael hwyl.
- Cael eu trin â pharch a chael rhywun i wrando arnynt.
- Byw mewn cartref a chymuned sy'n lle braf i dyfu i fyny ynddo.
- Cael y cymorth ariannol a materol sydd ei angen arnynt'.

Aiff y Cynllun yn ei flaen i nodi rhai o'r camau amrywiol y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd, gydag eraill, i wneud yr addewid hwnnw'n ffaith a gwireddu'r hawliau hynny.

Mae arnom ddyletswydd gofal arbennig i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal er mwyn sicrhau bod eu hawliau'n cael eu gwireddu'n llawn. Mae hyn yn faes pwysig iawn i ni.

Roeddem yn gwybod ar ddechrau'r broses diwygio radical fod llawer o blant a phobl ifanc yn cael profiadau cadarnhaol yn y system ofal a'u bod yn llwyddo mewn bywyd. Maen nhw'n ffynnu ac yn tyfu, yn cael gofal a chefnogaeth, ac yn mynd ymlaen i gyflawni eu potensial yn llawn. Roeddem wedi gweld newidiadau cadarnhaol. Er enghraifft, roedd llawer mwy o bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn mynd i'r brifysgol nag erioed o'r blaen. Roeddem yn ymfalchïo yn llwyddiant a gwydnwch pobl ifanc, ac mae hyn yn parhau i fod yn destun balchder mawr inni. Rydym yn ddiolchgar i bawb sy'n gofalu amdanynt ac yn eu cefnogi.

Ond roeddem hefyd yn gwybod bryd hynny fod llawer gormod o blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal nad yw eu hawliau yn cael eu gwireddu. Cafodd hyn ei gadarnhau yn ystod ein trafodaethau â phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal drwy broses yr Uwchgynhadledd. Mae llawer gormod o'r bobl ifanc hyn yn wynebu digartrefedd. Mae canran y bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal sy'n gadael yr ysgol gyda phump TGAU da neu ragor yn dal i fod yn rhy isel. Mae plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn profi stigma ac, yn aml, nid ydynt yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i oresgyn y trawma y maen nhw wedi'i brofi.

I ni, Lywodraeth Cymru, roedd hyn ac mae hyn yn annerbyniol. Yn ein Rhaglen Lywodraethu, sef y ddogfen lle nodwyd ein haddewidion i bobl Cymru, gwnaethom nifer o addewidion i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal a'u teuluoedd. Rydym eisoes wedi dechrau cymryd camau yn nhymor y Senedd hon sy'n cadw'r addewidion hynny. Er enghraifft, cafodd Taliad Incwm Sylfaenol ei gyflwyno gennym i'r rhai sy'n gadael gofal i roi dechrau gwell iddyn nhw ar eu bywydau annibynnol. Rydym hefyd wedi pasio cyfraith i atal cwmnïau preifat rhag gwneud elw o'r gofal sydd ei angen ar blant.

Gwnaethom hefyd addewid mwy eto, ac rydym wedi gweithredu arno. Yn ein Rhaglen Lywodraethu, gwnaethom addo 'Ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal.'

Drwy broses yr Uwchgynhadledd, ar y cyd â'r Llysgenhadon Ifanc, rydym wedi bod yn ymchwilio i'r hyn y dylai diwygio gwasanaethau mewn ffordd radical ei olygu i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

## Y Llysgenhadon Ifanc

Ar y dechrau, gwnaethom ni, y Llysgenhadon Ifanc, weithio gyda phlant a phobl ifanc eraill sydd â phrofiad o fod mewn gofal i ystyried beth yn union y mae diwygio radical yn ei olygu. Y geiriadur oedd y man cychwyn. Mae dwy ystyr i radical: trwyadl, llwyr, cyfan: a chwyldroadol, blaengar, trawsnewidiol. Mae diwygio yn golygu gwella, unioni, trwsio. Dyma eiriau gwych.

Roeddem yn falch bod Llywodraeth Cymru yn deall yr angen am ddiwygio radical. Roedd rhai ohonom wedi cymryd rhan mewn ymgyngoriadau o'r blaen, ac nid oeddem bob amser wedi teimlo bod ein barn yn cael ei chlywed a bod camau yn cael eu cymryd mewn ymateb i'n pryderon. Ond rydym yn hynod falch o'r gwaith rydym wedi bod yn ei wneud gyda'r Llywodraeth Cymru hon. O'r dechrau'n deg, rydym yn gwybod eu bod wedi gwrando. Rydym wedi bod yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc eraill sydd â phrofiad o fod mewn gofal i ddeall eu profiadau nhw o'r gwasanaethau presennol a beth sydd angen newid.

Daethom i'r Uwchgynhadledd gyntaf gyda'n syniadau ynghylch sut y gallai gwasanaethau sydd wedi'u diwygio'n radical edrych a beth y gallent ei gyflawni i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal a'u teuluoedd. Gwnaethom rannu'r syniadau hyn, a helpu i greu Gweledigaeth ar gyfer sut y bydd gwasanaethau sydd wedi'u diwygio'n radical yn edrych a beth y byddant yn ei gyflawni – gweledigaeth y gwnaethom ni a Llywodraeth Cymru gytuno arni. Ers hynny, rydym wedi cyfarfod â rhagor o blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac wedi dysgu rhagor am beth sydd angen newid. Felly, rydym wedi cytuno â Gweinidogion Cymru ar Weledigaeth newydd. Mae rhagor o wybodaeth am y Weledigaeth honno i'w chael isod.



# Y Weledigaeth

## Llywodraeth Cymru

Rydym wedi gwrando ar yr hyn y mae'r Llysgenhadon Ifanc wedi'i ddweud wrthym am eu profiadau nhw eu hunain a phrofiadau plant a phobl ifanc eraill sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Clywsom eu syniadau ynglŷn â sut y dylai gwasanaethau a fydd wedi'u diwygio'n radical edrych a beth y dylai'r gwasanaethau hynny ei gyflawni i blant a phobl ifanc. Rydym wedi bod yn gweithredu i wireddu'r Weledigaeth gyntaf. Roedd yr Uwchgynhadledd ym mis Mai 2025 yn gyfle inni ddysgu rhagor oddi wrth y Llysgenhadon Ifanc. Gyda'n gilydd, rydym wedi datblygu'r Weledigaeth newydd hon, sy'n adeiladu ar yr un gyntaf. Rydym yn ei chefnogi'n llawn.

## Y Llysgenhadon Ifanc

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwrando ar ein profiadau a'n syniadau ar gyfer Gweledigaeth ynghylch sut y gallai gwasanaethau sydd wedi'u diwygio'n radical edrych, a beth y gallai'r gwasanaethau hynny ei gyflawni. Gwnaethom gytuno ar y Weledigaeth gyntaf yn yr Uwchgynhadledd gyntaf. Rydym ni a Gweinidogion Cymru wedi cytuno ar y Weledigaeth newydd ac rydym yn ei chefnogi'n llawn.



## Llywodraeth Cymru

Rydym wedi gwrando ar yr hyn y mae'r Llysgenhadon Ifanc wedi'i ddweud wrthym am eu profiadau nhw eu hunain a phrofiadau plant a phobl ifanc eraill sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Clywsom eu syniadau ynglŷn â sut y dylai gwasanaethau a fydd wedi'u diwygio'n radical edrych a beth y dylai'r gwasanaethau hynny ei gyflawni i blant a phobl ifanc. Gyda'n gilydd, rydym wedi datblygu'r Weledigaeth newydd hon, yr ydym yn ei chefnogi.

## Y Llysgenhadon Ifanc

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwrando ar ein profiadau a'n syniadau ar gyfer Gweledigaeth ynghylch sut y gallai gwasanaethau sydd wedi'u diwygio'n radical edrych, a beth y gallai'r gwasanaethau hynny ei gyflawni. Rydym yn cefnogi'r Weledigaeth a nodir isod:

1. Yn ystod pob cam, bydd ymgysylltir â'r holl blant a phobl ifanc y mae'r system ofal yn effeithio arnynt, er mwyn gwrando ar eu barn. Bydd pobl sy'n gwrando arnynt yn deall y gall weithiau fod yn anodd mynegi barn neu fod yn ddigon hyderus i ddweud y gwir yn ei gyfanrwydd. Byddant yn cefnogi plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai bach, mewn modd sy'n eu galluogi i fynegi eu barn yn glir.
2. Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu hysbysu am eu hawliau. Bydd gwasanaethau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc yn ymdrechu i ddefnyddio iaith glir sy'n dangos parch wrth drafod hawliau pobl ifanc a'r cymorth sydd ar gael iddynt. Bydd gwybodaeth am ba gymorth sydd ar gael mewn gwahanol ardaloedd o Gymru yn cael ei rhoi i bobl ifanc mewn ffordd debyg er mwyn sicrhau ei bod yn haws ei deall.
3. Os na ellir cytuno ar ddymuniadau plentyn neu berson ifanc ynglŷn â ble a gyda phwy y maen nhw'n byw oherwydd bod angen iddynt fyw yn rhywle arall er mwyn eu galluogi i ffynnu, bydd yr hyn sy'n digwydd a'r rhesymau pam yn cael eu hesbonio'n glir ac mewn modd priodol.
4. Ni fydd unrhyw blentyn neu berson ifanc yn cael eu cymryd i mewn i ofal oni bai bod popeth posibl wedi'i wneud i helpu eu teulu i ofalu amdanynt yn dda, oni bai bod argyfwng.
5. Bydd gwasanaethau cymdeithasol yn sicrhau bod gwybodaeth gywir ar gael i blant a phobl ifanc am yr hyn sy'n digwydd, a ble maen nhw'n mynd i fyw pan fyddant yn cael eu cymryd i mewn i ofal, a phryd bynnag y bydd yn rhaid iddynt symud o un cartref i un arall. Bydd popeth posibl yn cael ei wneud i leihau'r sioc a'r trawma y gall pobl ifanc ei deimlo yn ystod unrhyw symudiadau y maent yn eu gwneud i mewn i ofal neu o un cartref i'r llall.
6. Bydd gan deuluoedd, y gallai eu plant gael eu cymryd i mewn i ofal, eiriolwr annibynnol i'w helpu a'u cefnogi, a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Bydd gan blant a phobl ifanc yn y teulu eu heiriolwyr annibynnol eu hunain hefyd (gweler isod), i wneud yn siŵr bod eu lleisiau'n cael eu clywed.
7. Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn cael eu cymryd i mewn i ofal, bydd y gwasanaethau'n gweithio gyda'r teulu a'r plentyn neu'r person ifanc i wneud popeth posibl i helpu'r teulu i allu dod yn ôl at ei gilydd, os yw'n bosibl cefnogi'r teulu i helpu'r plentyn neu'r person ifanc i ffynnu.
8. Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu clywed os ydyn nhw'n dweud nad ydyn nhw eisiau mynd adref, a bydd eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu hystyried. Pan fydd plant a phobl ifanc yn mynd adref, bydd gweithwyr proffesiynol yn cysylltu'n rheolaidd i wneud yn siŵr bod popeth yn mynd yn dda ac i helpu os oes angen.

9. Pan fydd plant a phobl ifanc yn cael eu cymryd i mewn i ofal, byddant yn cael eu cefnogi i gadw mewn cysylltiad â'u teulu biolegol os yw hynny'n bosibl. Bydd eu barn am gysylltu â'u teulu biolegol, a chyfathrebu â nhw, yn cael ei chlywed a'i gweithredu os yw hynny'n bosibl. Ni fydd pwysau'n cael eu rhoi ar unrhyw blentyn neu berson ifanc i gael cyswllt os nad ydynt yn dymuno hynny.

10. Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn sicrhau bod pobl ifanc yn cael mynediad at lyfrau stori bywyd neu ffyrdd eraill o ddeall mwy am eu hanes personol.

11. Bydd pobl ifanc sy'n cael eu mabwysiadu yn cael eu cefnogi i wybod cymaint â phosibl am eu gorffennol a'u treftadaeth. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi cyswllt ag aelodau o'r teulu lle bo hynny'n bosibl, a chael mynediad at eu hanes meddygol.

12. Pan fydd plant a phobl ifanc yn cael eu cymryd i mewn i ofal, bydd gweithwyr proffesiynol yn parhau i weithio gyda'r teulu. Mae hyn yn bwysig oherwydd gall y teuluoedd hyn gael mwy o blant, ac oherwydd pan fydd pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn ddigon hen, maent yn aml eisiau bod mewn cysylltiad â'u teulu biolegol ac weithiau byw gyda nhw.

13. Pan fydd pobl â phrofiad o fod mewn gofal yn dod yn rhieni, byddant yn cael eu helpu a'u cefnogi i ofalu am eu babanod a'u plant. Ni fydd babanod a phlant byth yn destun camau amddiffyn plant dim ond oherwydd bod eu mam neu eu tad wedi cael profiad o fod mewn gofal.

14. Pan fydd plant a phobl ifanc yn cael eu cymryd i mewn i ofal, bydd gan bob un ohonynt eiriolwr cwbl annibynnol i'w helpu i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud amdanyn nhw a'u gofal. Bydd eu heiriolwr yn eu helpu i ddeall penderfyniadau sy'n cael eu gwneud cyn, yn ystod ac ar ôl i'r broses ddigwydd. Byddant yn gallu cadw mewn cysylltiad â'u heiriolwr os dymunant, fel nad oes angen iddynt barhau i esbonio pethau dro ar ôl tro.

15. Pan fydd plant a phobl ifanc yn cael eu cymryd i mewn i ofal, byddant yn gallu aros yn agos i'w teulu a'u ffrindiau yn eu cymunedau a'u hysgolion eu hunain. Dim ond os ydynt mewn perygl y byddant yn cael eu hanfon yn bell i ffwrdd.

16. Bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn gwneud popeth posibl i osgoi newidiadau er mwyn cefnogi person ifanc yn ystod arholiadau neu gyfnodau tyngedfennol eraill yn eu haddysg, ac ni fydd yn rhaid i bobl ifanc newid eu hysgol neu goleg yn ddiangen pan fyddant yn symud i fyw rhywle arall os ydyn nhw eisiau aros lle maen nhw.

17. Pan fydd plant a phobl ifanc yn cael eu cymryd i mewn i ofal, a thrwy gydol eu taith ofal, bydd eu hawl i'w hiaith a'u diwylliant bob amser yn cael ei barchu. Bydd pobl ifanc yn cael cyfleoedd i gymdeithasu gydag eraill yn Gymraeg. Ni fydd unrhyw blentyn neu berson ifanc byth yn colli eu Cymraeg oherwydd eu bod wedi cael eu cymryd i mewn i ofal.

18. Bydd pawb sy'n gweithio i gefnogi plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn deall bod cael eu cymryd i mewn i ofal yn taflu plant a phobl ifanc i drawma/argyfwng. Mae angen i ni fel cenedl ddeall sut mae trawma yn effeithio arnom ni fel unigolion ac fel cymuned.

19. Bydd mwy o ofalwyr maeth, er mwyn i blant a phobl ifanc sy'n cael eu cymryd i mewn i ofal allu dod o hyd i'r bobl iawn i ofalu amdanynt ar unwaith. Bydd plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu hysbysu am y dewisiadau sydd ar gael iddynt ynglŷn â ble maen nhw'n byw a gyda phwy maen nhw'n byw. Ni ddylent orfod symud dro ar ôl tro, o gartref i gartref.

20. Bydd gofalwyr yn dangos cariad a charedigrwydd at y bobl ifanc y maen nhw'n gofalu amdanynt.

21. Pan fydd gofalwyr maeth yn cael eu recriwtio, bydd gofal yn cael ei gymryd i sicrhau bod ganddynt y gwerthoedd a'r ymddygiadau priodol i helpu plant a phobl ifanc i dyfu a ffynnu. Byddant yn cael eu cefnogi i helpu i leihau'r stigma sy'n wynebu pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal. Bydd pobl ifanc yn cael eu cefnogi mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu dealltwriaeth a pharch, nad ydynt yn gwneud i'r bobl ifanc ymddangos yn 'wahanol' i eraill.

22. Bydd gofalwyr sy'n berthynas yn cael cynnig cymorth i'w helpu i fod yn ofalwyr da i bobl ifanc, fel bod pobl ifanc yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel. Bydd gofalwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n berthnasol i'r bobl ifanc a'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer cymorth pellach.

23. Bydd gofalwyr maeth yn cael eu hyfforddi i ddeall trawma a sut mae'n effeithio ar blant a phobl ifanc. Byddant yn cael cymorth a hyfforddiant rheolaidd.

24. Bydd gofalwyr maeth yn cael eu hyfforddi i gefnogi pob plentyn a pherson ifanc. Byddant yn deall anghenion gwahanol plant a phobl ifanc sydd â nodweddion gwarchodedig ac yn gwybod sut i'w cefnogi. Bydd pobl ifanc ag anableddau yn cael yr holl gefnogaeth sydd ei hangen oddi wrth ofalwyr a'r awdurdod lleol.

25. Bydd gofalwyr maeth i gyd yn cael eu talu'n deg. Ni fydd gofalwyr sy'n berthynas yn cael llai o dâl, ac ni fydd gofalwyr yn cael mwy o dâl os yw'r plentyn neu'r person ifanc maen nhw'n gofalu amdanynt yn 'anodd.' Ni fydd plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu labelu felly.

26. Bydd digon o staff sydd â'r gwerthoedd, y sgiliau, a'r profiad priodol ar gael i gefnogi plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal. Byddant yn cael yr holl hyfforddiant a chymorth angenrheidiol, a byddant yn dangos empathi a dealltwriaeth bob amser, gan gynnwys trwy arferion sy'n ystyriol o drawma. Bydd gwasanaethau i bobl ifanc yn annog staff rheng flaen i gefnogi'r un bobl ifanc dros gyfnod hir o amser lle bo hynny'n bosibl, er mwyn helpu pobl ifanc i ddatblygu cysylltiadau'n seiliedig ar ymddiriedaeth. Bydd plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn gallu cael mynediad at gymorth pan fo angen, nid dim ond rhwng 9 a 4 ar ddyddiau'r wythnos.

27. Os nad yw gofal maeth yn ddewis iawn i blentyn neu berson ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, bydd amrywiaeth o opsiynau ar gael iddynt er mwyn iddynt allu byw bywyd sy'n gweddu i'w hanghenion.

28. Bydd gan blant a phobl ifanc sy'n byw mewn lleoliadau preswyl yr un hawliau â phlant sy'n byw mewn gofal maeth, a byddant yn cael cyfleoedd cyfartal i gymdeithasu a bod yn rhan o'r gymuned. Bydd y rheolau mewn cartrefi preswyl i blant yn deg, a bydd staff yn dawel ac yn rhesymol wrth eu cynnal. Lle mae pobl ifanc yn gallu bod yn gyfrifol, dylent gael lefel o annibyniaeth sy'n adlewyrchu hynny.

29. Bydd ceiswyr lloches ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu cefnogi mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw, ac sy'n parchu eu hawliau. Byddant yn cael gwybod pa gymorth sydd ar gael a sut i gael mynediad ato. Bydd ganddynt fwy o fynediad at ddehonglwyr/cyfieithwyr y maent yn gyfforddus â nhw ac sy'n deall eu hiaith a'u tafodiaith er mwyn eu helpu i fynegi eu hanghenion a gwneud pethau ymarferol fel gwneud apwyntiadau gyda'r gwasanaeth iechyd. Nid yw cyfieithu ar-lein yn gweithio bob amser. Bydd hyblygrwydd yn y ffordd y darperir dehonglwyr/cyfieithwyr fel bod pobl ifanc yn cael y cymorth dehongli/cyfieithu cywir ar yr adeg iawn, gan gynnwys mewn argyfwng.

30. Bydd gan geiswyr lloches ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yr un hawl i addysg lawn â phob plentyn a pherson ifanc arall. Byddant yn cael eu helpu i ddysgu Saesneg, a'r Gymraeg lle bo hynny'n briodol ac os dymunant hynny, yn gyflym, ac i ddysgu a chymdeithasu gyda phobl ifanc eraill o oedran tebyg. Byddant yn cael y gefnogaeth ymarferol sydd ei hangen i fanteisio ar gyfleoedd dysgu. Pan fyddant dros yr oedran ysgol gorfodol, byddant yn cael penderfynu p'un ai dysgu wyneb yn wynebu neu ddysgu ar-lein sydd orau ar eu cyfer.

31. Bydd ceiswyr lloches ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu cefnogi i ddysgu sgiliau ymarferol a galwedigaethol yn y gymuned y maent yn byw ynddi. Bydd ganddynt gynlluniau tymor byr a thymor hir ar gyfer addysg i'w helpu i wireddu eu dyheadau personol. Ni fyddant yn cael eu gorfodi i aros am fisoedd cyn ymuno ag ysgol neu goleg, a byddant yn cael eu cefnogi i ddysgu yn annibynnol ac yn y gymuned.

32. Byddant yn gallu dysgu sgiliau bywyd er mwyn eu helpu i ddeall y gymuned y maen nhw'n byw ynddi, ac os ydyn nhw'n ddigon hen, byddant yn gallu ymgymryd â lleoliadau profiad gwaith i'w helpu i ddod o hyd i waith pan fyddant yn gallu gwneud

hynny. Bydd ceiswyr lloches ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn cael yr un cymorth ble bynnag yng Nghymru y maen nhw'n derbyn gofal. Byddant yn cael yr un cymorth ariannol â phlant a phobl ifanc eraill sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Bydd cymorth ariannol yn sicrhau bod gan bobl ifanc yr adnoddau hanfodol sydd eu hangen i fyw fel rhan o'u cymuned, gan gynnwys dillad, trafnidiaeth, ac anrhegion ar gyfer achlysuron arbennig fel y Nadolig ac Eid.

33. Bydd ceiswyr lloches ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn cael yr un gefnogaeth â'r hyn a ddarperir i blant a phobl ifanc eraill sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Byddant yn cael eu trin â gofal, urddas, a pharch. Bydd ceiswyr lloches ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu cefnogi i ddatblygu cysylltiadau parhaol gydag oedolion y gallant ymddiried ynddynt. Byddant yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol sy'n bwysig iddynt, ac i ddilyn eu hobïau a'u diddordebau. Byddant yn cael eu cefnogi i ddod i adnabod eu hardal leol, adeiladu rhwydweithiau cymdeithasol, a chymryd rhan mewn gweithgareddau lleol.

34. Bydd gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd. Er enghraifft, bydd gweithwyr cymdeithasol yn gwneud yn siŵr bod ysgolion yn gwybod am newidiadau sy'n effeithio ar blentyn neu berson ifanc. Ni fydd plant a phobl ifanc byth yn gorfod esbonio'r pethau hyn eu hunain, ac ni fydd yn rhaid iddynt barhau i adrodd eu hanes drosodd a throsodd. Bydd pobl ifanc yn gallu cael ymatebion prydlon pan fydd angen iddynt ofyn am ganiatâd ar gyfer penderfyniadau maen nhw eisiau eu gwneud.

35. Pan fydd Awdurdodau Lleol yn cynnal cyfarfodydd ffurfiol gyda phobl ifanc i gynllunio ar gyfer eu gofal, byddant bob amser yn gwrando ar farn pobl ifanc ynghylch pwy sy'n mynychu'r cyfarfod, a ble a phryd y cynhelir y cyfarfod. Ni fydd plant a phobl ifanc byth yn cael eu gwneud i deimlo bod eu barn yn cael ei chau allan o'r broses.

36. Ni fydd sefydliadau sy'n cynllunio ac yn darparu gofal yn gwneud llawer o arian, gan roi'r arian hwnnw i'r bobl sy'n berchen ar y sefydliadau. Bydd yr holl arian sy'n cael ei wario i ddarparu gofal i blant a phobl ifanc yn cael ei ddefnyddio i ddarparu'r gofal hwnnw ac i wella'r gofal hwnnw. Ni fydd unrhyw blentyn neu berson ifanc yn cael eu gadael heb gartref sy'n addas iddynt os bydd eu cartref gofal yn cau neu'n newid oherwydd hyn, a bydd yr holl arian a arbedir trwy beidio â thalu elw yn aros yn y system i ofalu am blant a phobl ifanc.

37. Os bydd plant a phobl ifanc yn codi pryderon am y modd y mae gofal yn cael ei ddarparu ar eu cyfer, byddant yn cael eu clywed a'u credu. Bydd ymchwiliad priodol yn cael ei gynnal i'w pryderon. Ni fydd plant a phobl ifanc byth yn cael eu gadael mewn lleoliadau pan fyddant wedi dweud eu bod yn teimlo'n anhapus neu nad ydynt yn cael y gofal iawn.

38. Bydd plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn eu cymunedau, gan gynnwys cyfleoedd gwaith ieuenctid. Bydd gweithwyr ieuenctid yn cael eu hyfforddi i ddeall yr heriau y gallai pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal eu hwynebu, a byddant yn gwybod sut i'w cefnogi.

39. Bydd awdurdodau lleol yn sicrhau bod plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu cefnogi a'u hannog i gymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, gan sicrhau nad ydynt yn cael eu cyfyngu neu eu rhwystro gan y prosesau sydd ar adegau yn cymryd llawer o amser ac yn or-warchodol.

40. Bydd ysgolion a cholegau, a phawb sy'n gweithio ynddynt, yn deall plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn dda. Byddant yn gwybod y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt weithiau i ddysgu a bod yn hapus, a bydd ysgolion a cholegau yn gwneud yn siŵr eu bod yn cael y gefnogaeth honno hyd eithaf eu hawl. Byddant yn gwneud yn siŵr bod pobl ifanc yn cael cymorth pan fydd ei angen fel nad ydyn nhw'n treulio amser hir hebddo, yn enwedig ar gyfnodau tyngedfennol yn eu haddysg fel arholiadau.

41. Bydd ysgolion a cholegau yn deall bod plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn aml yn wynebu gwahaniaethu oherwydd stigma, a byddant yn gweithio'n galed i ddod â'r stigma hwnnw i ben. Bydd ysgolion a cholegau yn helpu i ddiogelu preifatrwydd pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal. Byddant yn helpu pobl ifanc i gael perthynas dda â'u cyfoedion, a byddant yn gwneud yn siŵr nad ydyn nhw'n cael eu trin yn annheg neu yn cael labelu mewn modd negyddol.

42. Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i ddod o hyd i'r amgylchedd dysgu mwyaf priodol iddynt. Byddant yn cael help gyda'r gost a'r pethau ymarferol sy'n gysylltiedig â chael mynediad at addysg, gan gynnwys trafnidiaeth.

43. Bydd plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn gwneud cystal yn yr ysgol a'r coleg â phlant a phobl ifanc eraill, gan ennill cymwysterau da a mynediad at gyfleoedd sy'n adlewyrchu eu dyheadau personol. Ni fydd eu dewisiadau addysgol yn cael eu cyfyngu, ac ni fyddant yn cael eu hannog i beidio â gwneud dewis addysgol oherwydd eu bod â phrofiad o fod mewn gofal. Byddant yn cael eu cefnogi a'u hannog i ystyried amrywiaeth o gyfleoedd dysgu a gyrfa.

44. Bydd pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yr un mor debygol o fynd i'r brifysgol ag unrhyw berson ifanc arall.

45. Bydd pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yr un mor debygol o gael prentisiaeth a swydd dda ag unrhyw berson ifanc arall. Bydd y llywodraeth yn helpu i uwchsgilio a chyflogi pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal ar gyfer rolau yn y sector cyhoeddus.

46. Bydd pob person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu cefnogi gan eu rhieni corfforaethol hyd nes eu bod yn 25 oed. Bydd cymorth ar gael i'r bobl ifanc hynny sydd am fanteisio arno ar ôl yr oedran hwnnw. Bydd rhieni corfforaethol yn sicrhau bod pobl ifanc yn cael yr un math o gymorth ariannol ac ymarferol â'u cyfoedion i alluogi eu datblygiad personol a'u rhwydweithiau cymdeithasol. Byddant yn gwneud yn siŵr bod pobl ifanc yn gwybod am y cymorth ariannol sydd ar gael iddynt a sut mae'r arian i'w cefnogi yn cael ei wario. Bydd pobl ifanc yn derbyn y swm llawn y mae ganddynt hawl iddo.

47. Bydd pob person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn gallu aros gyda'u gofalwyr maeth tan eu bod yn 25 oed os byddant yn dewis, a bydd digon o arian i'r gofalwyr maeth barhau i'w cefnogi. Bydd pobl ifanc sy'n byw mewn gofal preswyl pan fyddant yn cyrraedd 18 oed yn cael eu cefnogi i barhau i fyw yn y gymuned ger y cartref os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny, ac i allu cadw mewn cysylltiad â staff a throi atynt am gymorth. Bydd newidiadau mewn cefnogaeth yn digwydd yn raddol ac mewn modd sydd wedi'i gynllunio, fel nad yw'r person ifanc yn wynebu aflonyddwch dim ond oherwydd eu bod yn troi'n 18 oed.

48. Bydd pobl ifanc sy'n gadael gofal yn dechrau dysgu byw yn annibynnol ymhell cyn iddynt orfod gwneud hynny. Byddant yn cael eu cefnogi i gynllunio ar gyfer y dyfodol y maen nhw'n dymuno ei gael, a bydd y gefnogaeth honno yno iddynt gyhyd ag y bydd ei hangen. Byddant yn cael eu cefnogi i reoli eu harian yn effeithiol. Ni fyddant yn cael eu gorfodi i fyw'n annibynnol hyd nes eu bod yn barod.

49. Ni fydd unrhyw berson ifanc â phrofiad o fod mewn gofal byth yn ddigartref pan fyddant yn gadael gofal. Byddant yn cael eu cefnogi i ddod o hyd i gartref cyfforddus lle y gallant ddysgu bod yn annibynnol a byw yn hapus. Byddant yn cael eu cefnogi i gadw'r cartref hwnnw. Byddant yn cael eu cefnogi i ddod o hyd i gartref lle y gallant fyw am amser hir, a gallant deimlo urddas, preifatrwydd a diogelwch. Ni fyddant byth yn cael eu troi allan os nad oes ganddynt rywle i fynd. Byddant yn cael eu cefnogi nes y gallant ymdopi.

50. Ni fydd pobl ifanc mewn gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal yn fwy tebygol nag unrhyw berson ifanc arall o fynd i drafferth gyda'r gyfraith. Os ydyn nhw'n mynd i drafferth gyda'r gyfraith yn y pen draw, byddant yn cael eu trin yn union yr un fath ag unrhyw berson ifanc arall. Os ydyn nhw'n mynd i garchar, byddant yn parhau i gael eu cefnogi fel y gallant ddod o hyd i gartref a chael cyfle i ddechrau eto ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

51. Bydd plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn gallu cael help i gefnogi eu hiechyd meddwl yn amserol pan fydd ei angen arnynt, mewn ffordd sy'n dangos parch ac yn adlewyrchu eu hanghenion a'u nodweddion gwarchodedig. Bydd cymorth ar gyfer iechyd meddwl a llesiant yn cael ei gynnig i bobl ifanc heb iddynt orfod gofyn amdano, a bydd ar gael yn syth pan fydd problemau'n codi er mwyn atal unrhyw broblemau rhag gwaethygu.

52. Bydd plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu cefnogi a'u hannog i ddatblygu cysylltiadau cadarnhaol â chyfoedion a rhwydweithiau cymorth yn y gymuned. Bydd pobl ifanc yn cael cynnig cymorth ychwanegol i ddatblygu arferion ac agweddau cadarnhaol – er enghraifft aros yn egnïol neu gynnal agwedd gadarnhaol a chysylltiadau cadarnhaol – fel eu bod yn gallu datblygu rhwydweithiau cymdeithasol sy'n cael dylanwad cadarnhaol ar eu bywydau.

53. Ni fyddant byth yn colli cefnogaeth pan fyddant yn troi'n 18 oed ac yn dechrau defnyddio gwasanaethau oedolion. Bydd gweithwyr proffesiynol yn gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc, a'u gofalwyr, yn gwybod pa gymorth sydd ar gael a sut i gael gafael arno. Bydd y newidiadau yn y cymorth sydd ar gael i blentyn neu berson ifanc yn rhai graddol sydd wedi'u cynllunio.

54. Ni fydd lle maen nhw'n byw yn effeithio ar ansawdd y gofal a'r gefnogaeth a ddarperir i blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal.

55. Bydd y rheini sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch bywydau plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn eu hadnabod ac yn eu deall. Byddant yn cwrdd â nhw'n aml, a byddant yn gwrando arnynt ac yn gweithredu ar yr hyn maen nhw'n ei ddweud. Bydd plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal ym mhob man yng Nghymru yn cael eu cefnogi i ddod at ei gilydd gydag eraill fel bod ganddynt lais mwy pwerus.

56. Bydd pobl sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch bywydau plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn onest ac yn dryloyw, byddant yn sicrhau bod hawliau pobl ifanc yn cael eu cynnal yn briodol. Byddant yn gwneud yn siŵr bod yna atebolrwydd – lle y dangosir i bobl ifanc fod pethau'n gwella mewn gwirionedd. Bydd addewidion a wnaed i bobl ifanc am y gefnogaeth y byddant yn ei chael yn cael eu cyflawni, a phryd bynnag na ellir cyflawni addewidion yna bydd pethau'n cael eu hunioni cyn gynted â phosibl.

## Llywodraeth Cymru a Llysgenhadon Ifanc

Bydd y Weledigaeth yn datblygu'n barhaus. Mae'n Weledigaeth fyw, sy'n tyfu. Bydd yn tyfu wrth inni weithio gyda phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, a'r rhai sy'n gweithio gyda nhw ac yn eu cefnogi, ac wrth inni wrando arnynt. Byddwn yn dysgu rhagor. Bydd rhagor o bethau y gallwn eu hunioni, a rhagor o syniadau am sut i wneud hynny.

Yr egwyddor y tu ôl i bopeth rydym wedi'i amlinellu yn y Weledigaeth, ac y byddwn yn ei amlinellu eto ynddi wrth iddi dyfu, yw y dylai plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal gael yr un cyfleoedd â phob plentyn neu berson ifanc arall i gael gwireddu eu hawliau (fel y maen nhw wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac yng Nghynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Plant a Phobl Ifanc felly).

**Llofnodwyd ar ran Llywodraeth Cymru:**

.................................................................................................................................................

Prif Weinidog Cymru

.................................................................................................................................................

Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol

**Llofnodwyd ar ran y Llysgenhadon Ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal:**

.................................................................................................................................................

Llysgennad Ifanc

.................................................................................................................................................

Llysgennad Ifanc

.................................................................................................................................................

Llysgennad Ifanc

.................................................................................................................................................

Llysgennad Ifanc

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54079, ISBN digidol 978-1-83745-488-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg